Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

# Clefyd Newcastle

## Adnabod yr arwyddion

Haint feirysol hynod heintus yw clefyd Newcastle ac mae'n effeithio ar ddofednod ac adar caeth a gwyllt eraill.

Caiff y clefyd ei ledaenu drwy gyswllt uniongyrchol â hylifau corfforol adar sydd wedi'u heintio, yn enwedig eu carthion.

## Arwyddion clinigol i'w nodi

- anhawster anadlu fel pig agored, pesychu, tisian, cecian, ratlo
- arwyddion nerfol a amlygir drwy gryndod a pharlys a'r gwddf yn troi (torticollis)
- carthion anarferol o ddyfrllyd (dolur rhydd) sy'n wyrddfelyn eu lliw
- cwymp mewn cynhyrchiant wyau
- mae'r gyfradd marwolaethau yn amrywio ond gall fod cyn uched â 100% a gall achosi nifer sylweddol o farwolaethau yn gyflym mewn heidiau

## Brechiadau

Siaradwch â'ch milfeddyg i ddeall ai brechu yw'r dewis cywir i'ch haid chi.

## Rhoi gwybod

Os ydych chi'n amau bod clefyd Newcastle ar eich anifeiliaid, rhaid i chi roi gwybod amdano ar unwaith drwy ffonio:

- **03000 200 301 yng Nghymru**
- **0300 303 8268 yn Lloegr**
- **eich Swyddfa Gwasanaethau Maes leol yn yr Alban**



**Gwddf wedi troi (Torticollis)**



**Adenydd isel**



**Caethni: tagell a chrib**

Am ragor o wybodaeth, gan gynnwys sut i roi gwybod am achos o glefyd Newcastle, ewch i: www.gov.uk/newcastle-disease

Clefyd anifeiliaid hysbysadwy yw clefyd Newcastle. Os na fyddwch chi'n rhoi gwybod amdano, byddwch chi'n torri'r gyfraith.